**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)

Mehefin 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)

Mehefin 2010

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw un ohonynt, a chaiff ystyried y materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 ac 15.6 a chyflwyno adroddiadau ar y rheini.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Rheol Sefydlog 15 yn benodol. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

**Aelodau'r Pwyllgor**

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Janet Ryder (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Y Ceidwadwyr Cymreig | Dwyrain De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur | Gorllewin Caerdydd |

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **5**

**Swyddogaeth y Pwyllgor** ..... **6**

**Y Mesur Arfaethedig** ..... **6**

Cwmpas a Bwriad ..... 6

Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth ..... 7

Rhan 1: Bagiau Siopa Untro ..... 7

Rhan 2: Targedau gwastraff ..... 7

Rhan 3: Tirlenwi ..... 9

Rhan 4: Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle ..... 9

Rhan 5: Ymgynghoriad ..... 10

**Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor** ..... **11**

Egwyddorion Cyffredinol y Mesur Arfaethedig ..... 11

Pwerau Rheoleiddiol ..... 11

Ymgynghoriad ..... 11

Adrannau 1-2 Bagiau Siopa Untro ..... 12

Adrannau 12-14 Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle ..... 12

Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Amseru'r Ddeddfwriaeth ..... 13

**Tystion** ..... **14**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... **15**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1**: O gofio effaith bosibl adrannau 3-6 ar gyflenwi gwasanaethau awdurdodau lleol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 8 gynnwys darpariaeth i ymgynghori ag awdurdodau lleol o ran datblygu canllawiau ar adrannau 3-6. **(Tudalen 11)**

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn argymell fod y Gweinidog yn cyflwyno dull addas o sicrhau nad oes unrhyw amwysedd ynghylch faint o gosb y gellir ei gosod am dorri rheoliadau a wneir o dan adrannau 12 a 13**.** **(Tudalen 12)**

## Swyddogaeth y Pwyllgor

1. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiad arnynt:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig … sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru'
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau o ran rhinweddau'r cynnig y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'unrhyw fater deddfwriaethol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'

## Y Mesur Arfaethedig

2. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) ar 22 Chwefror 2010. Yna, cafodd ei gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 erbyn 25 Mehefin 2010. Y bwriad a ddatganwyd ar gyfer y Mesur arfaethedig yw gwneud darpariaeth i leihau'r gwastraff a'r sbwriel a gynhyrchir yng Nghymru.

### Cwmpas a Bwriad

3. Mae'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod manwerthwyr yn defnyddio'r derbyniadau net a gânt drwy werthu bagiau siopa untro at ddibenion amgylcheddol penodol, neu ar gyfer sefydliadau amgylcheddol. Mae hefyd yn gosod targedau statudol i awdurdodau lleol ar gyfer canran y deunydd gwastraff trefol sydd i'w ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio, yn ogystal â gwneud awdurdodau lleol yn atebol i dalu cosbau os ydynt yn methu â chyrraedd y targedau hynny. Mae darpariaethau hefyd a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wahardd neu gyfyngu rhai mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi a chyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SWMP) ar gyfer gwaith adeiladu a dymchwel yng Nghymru.

**Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth**

4. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys y pwerau a ganlyn i wneud is-deddfwriaethau:-

***Rhan 1: Bagiau Siopa Untro***

5. Bydd rheoliadau y bwriada Gweinidogion Cymru eu gwneud yn 2011 o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr godi isafswm am fagiau siopa untro. Bydd Adran 1 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn diwygio Atodlen 6 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliad, ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr dalu derbyniadau net y tâl a godir am fagiau siopa untro at ddibenion neu sefydliadau penodedig.

6. Yn unol â'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r tâl ei hun o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, y weithdrefn **gadarnhaol** fydd yn briodol ar gyfer y **rheoliadau cyntaf** a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon; **wedi hynny**, y weithdrefn **negyddol** fydd yn briodol.

7. Mae **Adran 77(4)** o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd hefyd yn darparu ar gyfer ystod o reoliadau eraill i gael eu gwneud o dan y weithdrefn **gadarnhaol.** Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau a fydd yn:

- gosod neu'n darparu ar gyfer gosod sancsiynau sifil newydd;
- rheoliadau sy'n cynyddu maint neu uchafswm cosb ariannol neu'n newid y sail ar gyfer pennu swm neu uchafswm o'r fath
- diwygio neu ddiddymu darpariaeth deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

8. Fel arall, bydd rheoliadau a wneir o dan Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

***Rhan 2: Targedau gwastraff***

9. Mae **Adran 3 (4)** o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y tabl a ddarperir o dan isadran (3) mewn perthynas â'r targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio a'r blynyddoedd ariannol y mae'r targedau'n gymwys iddynt. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan

mai'r weithdrefn **gadarnhaol** sydd yn briodol o ystyried yr effaith bosibl ar awdurdodau lleol os caiff y targedau eu diwygio.

10. Mae **Adran 3 (6)** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy orchymyn, er mwy pennu pa wastraff fydd yn cael ei ailgylchu; ei baratoi i'w ailddefnyddio; ei gompostio er mwyn cyrraedd y targedau a nodir yn yr adran hon. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai'r weithdrefn **negyddol** sy'n briodol o ystyried mai mater technegol ydyw.

11. Mae **Adran 3 (8) (c)** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu, drwy Orchymyn, gwastraff arall y caniateir ei gynnwys yn y diffiniad o wastraff trefol awdurdodau lleol ar gyfer y targedau o dan adran 3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai mater technegol yw hwn ac felly, y weithdrefn **negyddol** sy'n briodol.

12. Mae **Adran 4** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu targedau eraill, yn ychwanegol at y rhai a osodir o dan adran 3, yn ymwneud ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cael pennu dangosyddion perfformiad penodol er mwyn mesur i ba raddau y mae awdurdod lleol yn llwyddo i gyrraedd unrhyw dargedau a osodir o dan adran 4. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cosbau ariannol i awdurdodau lleol os na chyrhaeddir y targed gwastraff.

13. Mae'r pwerau hyn yn ymwneud â gosod targedau gwastraff statudol eraill, a fyddai'n rhwymo awdurdodau lleol yn gyfreithiol. Oherwydd hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **cadarnhaol**.

14. Mae **Adran 5** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, i fonitro ac archwilio cydymffurfiaeth â thargedau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai materion technegol yw'r rhain sy'n ymwneud â monitro a chydymffurfio â thargedau. Felly, ystyrir mai'r weithdrefn **negyddol** yw'r un briodol.

15. Mae **Adran 5 (1) (g)** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, i osod atebolrwydd ar awdurdodau lleol i dalu cost os metha'r awdurdod â chydymffurfio ag unrhyw un o'r rheoliadau a wneir o dan adran 5.

16. Gan fod y pŵer yn rhoi'r posibilrwydd i Weinidogion Cymru osod beichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau monitro ac archwilio cydymffurfio â'r targedau, cynigir defnyddio'r weithdrefn **gadarnhaol** ar gyfer gwneud y rheoliadau. Mae hyn yn gyson â'r pwerau a nodir o dan adran 6 (gweler isod) sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cosbau.

17. Mae **Adran 6 (2)** yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi cosbau i awdurdodau lleol am fethu â chyrraedd targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio o dan adran 3 neu dargedau gwastraff eraill o dan adran 4. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i bennu swm y gosb, rheolau i'w dilyn wrth gyfrifo swm y gosb ac agweddau eraill ar y drefn gosbi.

18. Gan fod y pwerau hyn yn rhoi'r posibilrwydd i Weinidogion Cymru osod beichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol am fethu â chyrraedd y targedau, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai'r weithdrefn penderfyniad **cadarnhaol** sy'n briodol.

***Rhan 3: Tirlenwi***

19. Mae **Adran 9 (1)** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliad, wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â gwahardd neu reoleiddio gollwng rhai mathau penodol o wastraff ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

20. Mae **Adran 10** yn rhagnodi bod y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 9 yn cynnwys pŵer i ddarparu ar gyfer sancsiynau sifil ar gyfer tramgwyddo a grëir o dan adran 9.

21. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, o ystyried ehangder y pŵer sydd ei angen a phwysigrwydd darpariaethau'r is-ddeddfwriaeth, a allai arwain at wahardd neu osod cyfyngiadau ar waredu deunyddiau penodol mewn safleoedd tirlenwi, mai gweithdrefn penderfyniad **cadarnhaol** fyddai'r weithdrefn briodol i'w defnyddio.

***Rhan 4: Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle***

22. Mae **Adran 12 (1)** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau o ddisgrifiad penodedig baratoi cynlluniau ar gyfer rheoli a gwaredu'r gwastraff a gynhyrchir yn ystod gwaith penodedig yng Nghymru sy'n ymwneud ag adeiladu a

dymchwel. Gall y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r rhai sy'n gorfod gwneud cynlluniau gydymffurfio â'r cynlluniau hynny. Mae isadran (2) yn nodi'r mathau o ddarpariaethau y gellir eu gwneud o dan y rheoliadau ac mae isadran (3) yn ei gwneud yn bosibl i'r rheoliadau fod yn gymwys i brosiectau drwy gyfeirio at gostau neu ffactorau eraill. Mae'r adran hon mewn difrif yn ailadrodd adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, sydd hefyd yn cael ei diwygio er mwyn ei gwneud yn berthnasol i Loegr yn unig.

23. Mae **Adran 13** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch tramgwyddau a chosbau am dorri gofynion y rheoliadau o dan adran 12.

24. Mae prosiect ar y gweill ar hyn o bryd i baratoi dadansoddiad cost a budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SWMP). Mae'n debygol y cyhoeddir dogfen ymgynghorol gyda rheoliadau drafft a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol yn ddiweddarach yn 2010. Mae angen felly i unrhyw gynllun ffioedd a chodi tâl sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle adlewyrchu'r penderfyniadau a wneir yn fwy cyffredinol ar Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle o ganlyniad i ddatblygu'r polisi uchod. Ystyrir felly bod natur eang y pŵer a nodir yn y Mesur arfaethedig yn briodol yn yr amgylchiadau hyn.

25. Cynigir y weithdrefn **negyddol** fel yr un sy'n gyson â'r pwerau presennol o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

### *Rhan 5: Ymgynghoriad*

26. Mae Adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, pob awdurdod lleol, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn barnu eu bod yn briodol cyn gwneud gorchmynion neu reoliadau o dan adran 3 (ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a thargedau compostio) neu reoliadau o dan adran 4 (targedau gwastraff), 5 (monitro ac archwilio cydymffurfiaeth â thargedau), neu 6 (cosbau).

27. Mae adran 11 yn gwneud gofyniad tebyg mewn perthynas ag adran 9 (gwahardd gwaredu gwastraff mewn safle tirlenwi). Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 9, ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, pob awdurdod lleol, cynrychiolwyr y personau hynny yr effeithir arnynt gan y rheoliadau, a phersonau eraill yn ôl yr hyn a fernir ei fod yn briodol.

28. Mae adran 7(2) ac 11(2) yn darparu bod gan waith ymgynghori a gaiff ei gynnal cyn pasio'r Mesur yr un effaith â phetai wedi ei gynnal ar ôl ei basio.

## Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

29. Trafododd y Pwyllgor y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) ar 20 Mai 2010 a chafod dystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

### Egwyddorion Cyffredinol y Mesur Arfaethedig

30. Yn amodol ar y farn isod, ac mewn cysylltiad â'r darpariaethau is-ddeddfwriaeth sydd ynddo, nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

### Pwerau Rheoleiddiol

31. Ar ôl ystyried tystiolaeth y Gweinidog, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cydbwysedd rhwng y pwerau ar wyneb y Mesur ac mewn rheoliadau yn gywir: mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol y bydd gan Weinidogion Cymru bwerau helaeth i wneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau yn ddiweddarach (yn rhatach na darparu mwy o fanylion ar wyneb y Mesur arfaethedig).

32. Mewn perthynas â bagiau siopa untro, mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw cyflwyno adrannau 1-2 o'r Mesur arfaethedig cyn cyhoeddi'r rheoliadau drafft sy'n codi tâl am fagiau siopa untro o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn cyfyngu'n sylweddol ar graffu ar yr adrannau hyn.

### Ymgynghoriad

33. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y trefniadau ymgynghori ar gyfer adrannau 7 (1) ac 11 (1) yn briodol.

34. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, ac o gofio effaith bosibl adrannau 3-6 ar gyflenwi gwasanaethau awdurdodau lleol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 8 gynnwys darpariaeth i ymgynghori ag awdurdodau lleol o ran datblygu canllawiau ar adrannau 3-6.

**Argymhelliad 1: O gofio effaith bosibl adrannau 3-6 ar gyflenwi gwasanaethau awdurdodau lleol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 8 gynnwys darpariaeth i ymgynghori ag awdurdodau lleol o ran datblygu canllawiau ar adrannau 3-6.**

35. Mae'r Pwyllgor yn cytuno nad oes angen darpariaeth benodol o dan adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt cyn cyflwyno rheoliadau gan mai'r bwriad yw dilyn y pwerau presennol o dan adran 54 o'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 o ran cynlluniau rheoli gwastraff safle mor agos â phosibl.

**Adrannau 1-2 Bagiau Siopa Untro**

36. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a wnaed o dan adran 1 o'r Mesur arfaethedig ar gyfer y gyfres gyntaf o reoliadau ac â'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniad negyddol ar gyfer deddfwriaeth ddilynol.

**Adrannau 9-11 Gwaharddiadau Tirlenwi**

37. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru gael pwerau i gyflwyno sancsiynau sifil o dan adrannau 9 a 10 o'r Mesur arfaethedig.

**Adrannau 12-14 Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle**

38. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniad negyddol ar gyfer rheoliadau a gyflwynwyd o dan adrannau 12-13 gan fod y pŵer yn gyson â'r pwerau presennol a gynhwysir yn Neddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

39. Nodir bod adrannau 12 a 13 yn eu hanfod yn ailddatganiad o'r gyfraith fel y'i ceir yn Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 a bod y Ddeddf hon ar hyn o bryd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud reholiadau sy'n ymwneud â Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Nodir ymhellach bod y pwer hwn yn rhydd o ran y gosb y gellir ei gosod am dorri'r rheoliadau. Mewn achos o ailddatganiad nas newidiwyd o gyfraith bresennol, cawn ein cynghori na fydd y cyfyngiad cyffredinol sy'n ymwneud â gosod cosbau, a gynhwysir yn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Atodlen 5, Rhan 2, paragraff 2) yn gymwys.

40. Er mwyn tryloywder ac er mwyn cynorthwyo'r rhai a fydd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau, a'r rhai a fydd yn gorfodi'r rheoliadau hynny, y gellir eu gwneud o dan adrannau 12 a 13, credwn na ddylid cael unrhyw amwysedd ynghylch faint o gosb y gellir ei gosod.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell fod y Gweinidog yn cyflwyno dull addas o sicrhau nad oes unrhyw amwysedd ynghylch faint o gosb y gellir ei gosod am dorri rheoliadau a wneir o dan adrannau 12 a 13.**

**Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Amseru'r Ddeddfwriaeth**

41. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o ran holl effaith y gwahanol gynigion deddfwriaethol a rheoleiddiol a gaiff eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig hwn ar y rhai yr effeithir arnynt gan ei gynnwys: mae'r asesiadau effaith rheoleiddiol a ddaw gyda'r Mesur arfaethedig yn cynnwys dadansoddiad cost a budd ar gyfer pob un o'r pedwar maes a gaiff eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig ac maent yn cynnwys effaith y ddeddfwriaeth ar y sectorau perthnasol; bydd y rheoliadau drafft yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cynnwys asesiadau effaith rheoleiddiol manwl.

42. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu ar gyfer y prif ddarnau o ddeddfwriaeth a gaiff eu cyflwyno o dan bolisi gwastraff Llywodraeth Cymru.

# Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 20 Mai 2010. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn yn www.cynulliadcymru.org

*20 Mai 2010*

| | |
|---|---|
| Jane Davidson AC | Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Llywodraeth Cymru |
| Prys Davies | Rheolwr Deddfwriaeth, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Llywodraeth Cymru |
| Elisabeth Jones | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

| *Dogfen* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) | CA(3)-14-10(p6) |
| Memorandwm Esboniadol | CA(3)-14-10(p7) |
| Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol | CA(3)-14-10(p8) |
| Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog a'r ymateb | CA(3)-14-10(p9) a (10) |